PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MAWRTH, 24 HYDREF 2023

| | | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Wong(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Henshaw, Jones, Shimmin a/ac Thomson |

38 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Jenkins, Brown-Reckless a Lloyd Jones.

39 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi'u derbyn.

40 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

41 : DIWEDDARIAD NEUADD DEWI SANT

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau eu bod yn craffu ar yr adroddiad i'r Cabinet sy'n nodi canlyniadau'r arolygon to ymwthiol ac yn gofyn am gymeradwyaeth i'r Cyngor ymrwymo i gytundeb amodol i brydlesu ac, ar ôl y bodlonir yr amodau hyn, trosglwyddo Neuadd Dewi Sant trwy gytundeb gwerthu busnes a phrydles eiddo 45 mlynedd atgyweirio ac yswirio llawn gydag AMG. Mae'r adroddiad hefyd yn gofyn i'r Cabinet nodi bod Neuadd Dewi Sant yn parhau ar gau a strategaeth ymgysylltu â staff arfaethedig y Cyngor.

Gall yr Aelodau archwilio'r agweddau hyn a'r goblygiadau i'r Cyngor, gan gynnwys a oes unrhyw risgiau i'r Cyngor.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Joel Williams, a oedd yn bresennol i gymryd rhan yn y craffu yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad, sy'n goruchwylio eiddo ac Adnoddau Dynol.

Yn ogystal, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Burke – Aelod Cabinet – Diwylliant, Parciau a Digwyddiadau; Kathryn Richards – Pennaeth Diwylliant, Lleoliadau, Twristiaeth a Digwyddiadau; Scott Couzens – Bevan Brittan LLP; Chris Pembridge – Cyfarwyddwr, WSP – Peirianwyr Strwythurol; Neil Hanratty – Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd; Chris Barnett – Rheolwr Gweithredol – Prosiectau Mawr; Ruth Cayford – Rheolwr Gweithredol – Diwydiannau Creadigol a Diwylliant; Donna Jones – Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Ystadau'r Sir; Eirian Jones – Rheolwr Gweithredol – Ystadau Strategol; Richard Crook - Rheolwr Gweithredol (Interim) – Prosiectau Mawr a Tracey Thomas – Prif Swyddog – Adnoddau Dynol, i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad agoriadol ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Trafododd yr Aelodau sut mae'r cynigion ar gyfer Neuadd Dewi Sant yn effeithio ar staffio. Nodwyd nad yw TUPE (Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth) yn debygol o fod yn gymwys, a bod staff ac undebau yn gyfforddus gyda hyn. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y bydd staff dros dro sydd â dwy flynedd neu lai o wasanaeth yn cael cymorth i ddod o hyd i gyfleoedd mewn mannau eraill yn y Cyngor, a bydd staff achlysurol hirdymor yn gymwys i gael eu hadleoli ac am ddiswyddo gwirfoddol. Ni ellir gwarantu adleoli, ond bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i wneud y mwyaf o adleoli. Nododd yr Aelodau fod y rhan fwyaf o staff llawn amser Neuadd Dewi Sant wedi mynegi diddordeb mewn diswyddo gwirfoddol.

Nododd y Pwyllgor ganlyniadau'r arolygon ymwthiol a thrafododd y dull arfaethedig o gau Neuadd Dewi Sant ar gyfer atgyweiriadau to a gwaith adnewyddu arall, gan gynnwys gwaredu planciau concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (CAAC). Roedd yr Aelodau'n falch o glywed y gallai contractwr cyffredinol ymgymryd â'r gwaith hwn, er gwaethaf yr her o ddelio â chwympiadau sydyn posibl wrth waredu planciau CAAC. Nododd y Pwyllgor hefyd fod sawl prosiect sector cyhoeddus wedi cael eu canslo ar draws y DU, gan olygu bod contractwyr ar gael i wneud y gwaith.

Gofynnodd yr Aelodau am effaith gwaredu planciau CAAC ar acwsteg Neuadd Dewi Sant. Nodwyd y gallai eu gwaredu gael effaith gadarnhaol, gan y gallai'r to newydd ddefnyddio deunyddiau sy'n gwella acwsteg. Bydd unrhyw waith yn amodol ar gymeradwyaeth gan beiriannydd sŵn, ac AMG fyddai’n gyfrifol am gostau gwaith adfer, pe bai ei angen.

Cefnogodd y Pwyllgor sefydlu gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o AMG a swyddogion y Cyngor, gan gynnwys swyddogion cynllunio, swyddogion cadwraeth a swyddogion datblygu economaidd. Nododd yr Aelodau mai pwrpas y grŵp fyddai penderfynu ai caniatâd cynllunio neu ganiatâd cadwraeth yw'r prif fater ar gyfer ailagor Neuadd Dewi Sant a chynnwys rhanddeiliaid yn y broses.

Nododd yr Aelodau fod angen i'r Cabinet barhau’n fodlon bod y cynigion yn bodloni'r ddyletswydd ystyriaeth orau. Cadarnhawyd bod cyngor Cwnsler y Brenin, prisiad JLL a chyngor Bevan Britten a gafwyd yn flaenorol yn berthnasol, ac mae'r risg o ran CAAC wedi’i chadarnhau, gan effeithio ar safle AMG wrth wella safle'r Cyngor. Yr unig gost ychwanegol i'r Cyngor yw costau diswyddo gwirfoddol lle y cytunir arno.

Trafododd y Pwyllgor gostau atgyweirio ac adnewyddu’r to, gydag AMG yn ysgwyddo'r costau hyn. Nododd yr Aelodau fod yr oedi cyn cyflawni arbedion yn sgil trosglwyddiad arfaethedig Neuadd Dewi Sant yn achosi problemau cyllidebol i'r Cyngor, a bod y Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd yn gweithio gyda chydweithwyr cyllid i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Gofynnodd yr Aelodau am gysylltu â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ofyn am gymorth ariannol ar gyfer delio â CAAC yn Neuadd Dewi Sant. Nodwyd bod cysylltu blaenorol ym mis Rhagfyr 2022 yn aflwyddiannus, ac awgrymodd y Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd nad yw cysylltu eto’n debygol o fod yn llwyddiannus.

Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod gwasanaethau Actifyddion Artistig yn cael eu diogelu ac y byddant yn parhau i weithredu yn ystod cyfnod cau Neuadd Dewi Sant. Roedd yr Aelodau hefyd yn falch o glywed bod cydnabyddiaeth o'r angen i ddiogelu'r ecosystem a gefnogir gan Neuadd Dewi Sant, gan gynnwys cynulleidfaoedd,

cerddorfeydd, cerddorion, perthnasau gyda hyrwyddwyr a pherfformwyr. Mae grŵp o randdeiliaid cerddoriaeth glasurol yn gweithio ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth i ddiogelu'r ecosystem hon.

Nododd y Pwyllgor y byddai'r gwaith arolygu i nodi CAAC ar draws ystâd y Cyngor yn cael ei gwblhau ddiwedd mis Hydref. Nododd yr Aelodau nad oes unrhyw CAAC wedi'i ganfod hyd yma yn ystâd y Cyngor, gan gynnwys ysgolion. Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb yn y broses o ddelio â CAAC mewn adeiladau nad ydynt yn adeiladau’r Cyngor, a nodwyd bod canllawiau diwygiedig yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn berthnasol i bob eiddo.

Dywedodd rhai Aelodau ei bod yn drueni bod y Cyngor yn ystyried trosglwyddo’r gwaith o reoli Neuadd Dewi Sant i gwmni preifat ac roeddent o’r farn y dylai fod datrysiad ariannu cenedlaethol, yn enwedig gan fod materion CAAC yn broblem genedlaethol sy'n sbarduno heriau ariannol.  Roedd yr Aelodau hyn yn dymuno i'w barn leiafrifol gael ei nodi.

PENDERFYNWYD - Eithrio’r cyhoedd o’r cyfarfod ar yr adeg hon tra bod y Pwyllgor yn trafod yr eitem hon sy’n cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â’r disgrifiad a geir ym mharagraffau 14 a 16 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu heithrio o’r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

42 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi’u derbyn.

43 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

21/11/23, 4.30pm

Daeth y cyfarfod i ben am 7.20 pm